

Pa mor wydn yw'r sector treftadaeth?

24/02/2021



[See all updates](#)

Yn 2019 comisiynodd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ymchwil i ddeall barn y sector treftadaeth ar wydnwch ac anghenion cymorth busnes.

Atodiad

Maint

[Resilience in the heritage sector report March 2020](#) 377.91 KB

Edrychodd yr ymchwil ar brofiadau, anghenion a heriau sefydliadau cyn effaith coronafeirws (COVID-19). Mae llawer o'r canfyddiadau cyn COVID hefyd wedi'u hadlewyrchu mewn sgysiau mwy diweddar gyda sefydliadau treftadaeth.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys:

- Adolygiad o'r llenyddiaeth ar gadernid a meithrin gallu yn sector treftadaeth y DU.
- Dadansoddiad data ar arolwg ar raddfa fawr i ddeall gwahaniaethau rhwng sefydliadau treftadaeth a sefydliadau celfyddydol.
- Cyfweiliadau gyda nifer fach o randdeiliaid allweddol.
- Pum digwyddiad bord gron gyda phobl o sefydliadau yr ydym wedi'u hariannu a bwrdd crwn gydag arweinwyr yn y sector tir a natur.

Defnyddir yr ymchwil hon i lywio ein gwaith cynllunio a'n canllawiau ynghylch cydnerthedd sefydliadol. Roedd hefyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu [ein mentrau ariannu cymorth busnes a datblygu menter](#) - rhan o'r gwaith o gyflawni ein [Fframwaith Ariannu Strategol](#).

Yr hyn a olygw'n wrth wydnwch



Gweithwyr yng Nghefn Ila, Sir Fynwy

Mae cydnerthedd sefydliadol yn gallu ymateb i newidiadau, bygythiadau a chyfleoedd. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r ddwy agwedd allweddol ar wydnwch:

- Bownsio'n ôl – goroesi, dygnwch, cryfder a chadw nodau craidd.
- Bownsio ymlaen – ffyniannus, esblygu a datblygu nodau yng ngoleuni newidiadau.

Yr hyn a ddywedodd y sector wrthym

Drwy ein hymgyngoriad, cawsom wybod bod angen gwahanol lefelau ac arddulliau o hyfforddiant cymorth a sgiliau wedi'u teilwra ar y sector. Dywedodd sefydliadau wrthym eu bod yn elwa o gael ystod amrywiol o sgiliau mewnol, gwybodaeth am gyllid ac asedau anniriaethol, a'r gallu i olrhain perfformiad.

Gwelsom fod llawer o sefydliadau'n aml yn ei chael hi'n anodd neilltuo amser i feithrin gallu a meddwl yn strategol.

Gwelsom hefyd fod sefydliadau treftadaeth yn elwa o rwydweithio a chydweithredu, a bod awydd i wneud hyn. Mae llawer o sefydliadau'n wynebu heriau tebyg, hyd yn oed gyda'r rhai sy'n

gweithredu o fewn sector gwahanol.



Ein camau nesaf

Er mwyn deall sut mae gwydnwch yn edrych, canfuom y gallwn edrych ar ffyrdd y gellid casglu data gan sefydliadau i olrhain eu perfformiad. Gallai newidiadau cadarnhaol ddangos i ni fod sefydliad bellach yn fwy gwydn.

Mae angen parhaus hefyd am ariannu mathau newydd a gwahanol o brosiectau gwydnwch a meithrin gallu. Mae sesiynau hyfforddi ar offer a sgiliau allweddol (a sefydlwyd drwy edrych ar fylchau mewn sgiliau) ar gyfer gwydnwch yn bwysig, ochr yn ochr â chyllid prosiect ar gyfer gwaith meithrin gallu.

Yn dilyn yr ymchwil hon, ym mis Mawrth 2020 [dyfarnwyd £4m i brosiectau](#) sy'n darparu rhaglenni hyfforddiant a chymorth mewn sgiliau datblygu busnes a menter.

Dysgwch fwy am y rhaglenni hyn ar [ein tudalen cydnerthedd bwrpasol](#).



Cefnogaeth gyfredol i'r sector

Mae treftadaeth y DU yn wynebu ei bygythiad mwyaf ers yr Ail Ryfel Byd. Mae safleoedd treftadaeth, atyniadau a sefydliadau wedi profi colled sydyn a dramatig o incwm o ganlyniad i bandemig COVID, sydd wedi rhoi'r economi treftadaeth ac ymwelwyr mewn argyfwng, sydd angen ymateb brys.

Ar gyfer 2021-22 rydym wedi ailffocysu ein blaenoriaethau i gryfhau'r sector yn ei adferiad yn y tymor canolig ac i adeiladu'n ôl ar gyfer newid cadarnhaol ar draws treftadaeth y DU. [Rydym am ariannu prosiectau](#) sy'n dangos gwerth treftadaeth i'n bywyd cenedlaethol ac sy'n cefnogi economïau, lleoedd a chymunedau lleol.



ddordeb hefyd mewn ...

[Buddsoddi mewn gwytnwch](#)



[Help for heritage organisations to build better businesses](#)